# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2023**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HAF 2023**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**
**Prynu tŷ am y tro cyntaf**

**A1** Beth yw oed cyfartalog y bobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru? [1]

- 31

Tic = 1 marc

**A2** Darllenwch y gosodiadau canlynol a nodwch a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir. Rhowch ✓ neu **X** yn y blwch perthnasol. Mae un wedi'i wneud i chi'n barod. [2]

| **Gosodiad** | ✓ neu **X** |
|---|---|
| Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yn Awstralia yn iau o'i gymharu â'r Almaen. | **X** |
| Deg ar hugain yw oed cyfartalog prynu tŷ am y tro cyntaf yn India. | ✓ |
| Ar gyfartaledd mae'r bobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru yn hŷn na phobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Ngwlad Belg. | ✓ |

**1 marc am bob ateb cywir = 2 farc**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Llety yng Nghymru**

**A3** Pa air yn yr hysbyseb sy'n dangos i chi **na fydd** rhaid i chi fynd â dillad gwely gyda chi i'r bwthyn hwn? [1]

- **yn gynwysedig / cynwysedig**

**Tic = 1 marc**

**A4** Sawl gwely sydd ar gael yn y bwthyn? [1]

- 3 / 1dwbl, 2 sengl

**Tic = 1 marc**

**A5** Pam mae'r bwthyn hwn yn addas ar gyfer pobl sy'n gwneud gweithgareddau awyr agored? [1]

(1 marc am nodi unrhyw un o'r gweithgareddau gerllaw e.e beicio)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Mae tŷ Nain ar Rightmove**

**A6** Edrychwch ar y frawddeg ganlynol. Beth yw enw'r nodwedd sydd mewn print trwm? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

*Daeth y neges gan ei chwaer yn* ***oriau mân y bore****.*

| | |
|---|---|
| *Ansoddair* | |
| *Idiom* | ✓ |
| *Cyffelybiaeth / Cymhariaeth* | |
| *Trosiad* | |

**A7** Yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth yw ystyr **'oriau mân y bore'**. [1]

- Yn gynnar iawn yn y bore / hwyr iawn yn y nos / canol y nos

(Neu unrhyw beth sy'n awgrymu rhywbeth tebyg/cyfystyr i'r uchod.)

**A8** Sut mae'r awdur yn teimlo yn narn darllen 3? Trafodwch sut mae'n llwyddo i gyfleu'r teimladau hynny.
Dylech gyfeirio at y darn darllen i gefnogi'ch ateb. [6]

**Enghreifftiau o deimladau sy'n codi o'r darn**

- **Siom**
- **Hiraeth**
- **Atgofion**
- **Trist**
- **Dicter**
- **Hapusrwydd**
- **Gofid**
- **Pryder**

**Neu unrhyw deimlad perthnasol arall**

| **Techneg** | **Enghraifft** |
|---|---|
| Brawddegau byr | 'Mae tŷ Nain ar Rightmove'. 'Dyna fo - tŷ Nain.' |
| Adferf | a Gorffennaf, hyd yn hyn, wedi bod **yn siom.** |
| Defnydd o'r Saesneg | *Terraced house in sought after location. Ideal as a rental property or as a first step on the property ladder.* |
| Berfau | **'Llyncodd** Lili ei phoer' 'Edrychodd…' 'Cofiai…' 'Edrychai….<br>'ysai |



© WJEC CBAC Cyf.

| Techneg | Enghraifft |
|---|---|
| Trosiad | 'yng nghig ei chalon' 'yn anwyldeb ei chalon' |
| ailadrodd | yn ddwfn, ddwfn… |
| Brawddeg unigol | Doedd Lili heb gysgu'n iawn ers gadael y tŷ yna. |
| Synhwyrau | Cofiai sŵn y criced o'r teledu, a'r ffordd y byddai'r llwch o'r safle adeiladu wedi gadael arogl plastar a sment ar ei ddillad.<br><br>…dim ond ochenaid sŵn car ar lonydd yn torri'r tawelwch bob hyn a hyn. |
| Ansoddeiriau | hir, fain, |
| Defnydd o'r tywydd | Roedd hi wedi bwrw eto |
| Personoli | Cysgai'r byd i gyd, a dim ond ochenaid sŵn car |

**Neu unrhyw arddull / techneg perthnasol arall**

| Marc | |
|---|---|
| **0** | Dim ymgais i ateb y cwestiwn |
| **1** | Ateb syml byr sy'n dangos ymwybyddiaeth syml o deimladau |
| **2** | Gallu cyfeirio at ambell deimlad yn y darn gan ddechrau dyfynnu / dangos tystiolaeth / enghreifftiau. |
| **3** | Ymdrech eithaf da i drafod sawl teimlad, arddull/technegau gan gynnwys sawl enghraifft ac ymgais fras i ddechrau dadansoddi. |
| **4** | Trafod yn dda sawl teimlad a nodwedd o'r darn gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda. |
| **5** | Trafod yn dda iawn sawl teimlad a nodwedd o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda iawn. |
| **6** | Ateb manwl sy'n trafod yn ddeallus y nodweddion arwyddocaol gan ddyfynnu a dadansoddi'n hyderus. |



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Blog Mabli Siriol**

**A9** Mae **un** o'r gosodiadau canlynol yn gywir. Nodwch ba **un** sy'n gywir drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

| | |
|---|---|
| Yn ôl Shelter Cymru, mae traean o bobl Cymru yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai. | ✓ |
| Problem ar yr arfordir ac mewn cymunedau gwledig yn unig yw hon. | |


**Tic = 1 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Hawl i Fyw Adra**

**A10** Pa ffaith sy'n gywir am ba rif? Tynnwch linellau i'w cysylltu. Mae un wedi'i wneud i chi'n barod. [2]




**1 yn gywir = 0 marc**
**2 neu 3 yn gywir = 1 marc**
**4 yn gywir = 2 farc**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4 a 5**
**Blog Mabli Siriol**
**Hawl i Fyw Adra**

**A11 Darllenwch ddarnau darllen 4 a 5 yn ofalus.**

**Cyfunwch** y wybodaeth o'r darnau darllen er mwyn esbonio beth yw'r **pryderon** ynglŷn ag ail gartrefi a beth yw eu **heffaith** ar gymunedau yng Nghymru.
Dylech gyfeirio at y darnau darllen i gefnogi'ch ateb. [8]

| Darn Darllen 4 | Darn Darllen 5 |
|---|---|
| Pobl ifanc yn cael trafferth byw yn eu cymuned oherwydd prisiau rhent a thai | Hawl i fyw adra yn 'frwydr barhaus' |
| Prisiau tu hwnt i gyflogau cyffredin | Dim digon o reoliadau ar ail gartrefi mewn cymunedau ledled Cymru |
| Llywodraeth yn trin tai fel eiddo i wneud elw | Yn ôl ffigurau Cyngor Gwynedd, mae 60% o drigolion y sir wedi'u prisio allan o'r farchnad dai |
| Canlyniadau'n drychinebus i bobl gyffredin Cymru, ein cymunedau a'r Gymraeg | Hawl i Fyw Adra wedi cael ei sefydlu ar ôl cynnydd mewn prisiau tai ac yn y tai sy'n cael eu prynu fel ail gartrefi |
| Hon yn broblem sy'n gwaethygu | Cynllun Cyngor Gwynedd wedi dyddio ac nid yw'n addas ar gyfer cwrdd ag anghenion pobl leol |
| Shelter Cymru'n amcangyfrif bod 1 ymhob 3 o bobl yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai | Mae Cyngor Gwynedd yn gwadu nad ydyn nhw'n gwneud dim byd ynglŷn â'r peth. |
| Problem benodol i bobl ifanc | HIFA yn nodi bod y cynllun "yn elyniaethus tuag at bobl a chymunedau lleol" |
| Cael eu galw'n genhedlaeth rhent | Mae'n rhaid gweithredu er mwyn gwarchod y Gymraeg - unrhyw beth llai na hyn yn gwanhau'r iaith yn ei chadarnleoedd. |
| Rhan fwyaf o incwm pobl ifanc yn cael ei wario ar rent - dim arian i brynu pethau eraill nac arbed i'r dyfodol | Y cynllun presennol ddim yn galluogi digon o bobol leol i barhau i fyw yn eu cymunedau |
| Prisiau tai Grangetown wedi ffrwydro | Rhys Tudur yn credu bod y Cyngor yn gweithredu'n ara' deg - 'llusgo'u traed' |
| Mae'r un peth yn wir am arfordir Cymru a chymunedau gwledig | Oddeutu 11% o dai'r sir yn ail gartrefi. |
| Pobl ifanc yn gadael y cymunedau hyn oherwydd nad ydyn nhw'n gallu fforddio tŷ yno. | 20,000 o gartrefi newydd carbon isel ledled Cymru |



© WJEC CBAC Cyf.

| Darn Darllen 4 | Darn Darllen 5 |
|---|---|
| Y bobl ifanc yn mynd â'r Gymraeg gyda nhw | Dim modd i Rhys fyw ym Morfa Nefyn - prisiau tai yn warthus |
| Mae gan rai pobl ddau dŷ tra bo eraill heb yr un. | Cymunedau'n datgymalu |
| 'Tai fforddiadwy' y tu hwnt i gyrraedd pobl gyffredin | Trist nad yw pobl ifanc yn cael byw yn y fro maen nhw'n ei charu |
| Dim cyfleoedd i bobl ifanc er mwyn gallu byw adra | Y broblem fel tswnami - gall hyn fod yn ddiwedd ar y cymunedau |
| Angen buddsoddi yn y gwasanaethau lleol | Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau |
| Bygthiad i ysgolion bach | |
| Datblygwyr / pobl gyfoethog yn dod i gymunedau | |

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn |
| **1 marc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru'r pryderon a'u heffaith (1-4) |
| **2 farc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru'r pryderon a'u heffaith (5-8) |
| **3 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restru'r pryderon a'u heffaith (9+) |
| **4 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restru'r pryderon a'u heffaith a dechrau dehongli'r wybodaeth yn arwynebol |
| **5 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda a dehongli'r wybodaeth yn gyson dda |
| **6 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda iawn a dehongli'r wybodaeth yn dda iawn |
| **7-8 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli'r wybodaeth yn aeddfed a threfnus |



© WJEC CBAC Cyf.

**A12 Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch yr idiom fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Llwyddodd Steffan yn ei arholiadau, roedd yr holl waith adolygu wedi ……………………… .

**talu ar ei ganfed**

(ii) Mae'r rhagenwau ar goll yn y brawddegau canlynol. Rhowch y rhagenwau cywir yn y bylchau. [3]

Cofiodd Mari ei bod wedi anghofio **(ei)** chôt yn **(fy)** nhŷ i. Gofynnodd i Lea ac Alis ei chasglu ar **(eu)** ffordd adref.

(iii) Dewiswch **y geiriau cywir** o'r rhestr a'u gosod yn y bwlch. [1]

**maen nhw** mae'n nhw mae nhw

**Maen nhw** wedi llwyddo i gwblhau eu gwaith i gyd yn ystod y wers heddiw.



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B (Ysgrifennu): 40 marc

**B1. Prawf ddarllen (5 marc)**

(i) Yn y tabl isod, mae'r gair ar ôl y rhagenw wedi ei dreiglo'n anghywir. Yn yr ail golofn, cywirwch y gair. Mae un wedi'i wneud i chi'n barod. [3]

| | **Cywiriad** |
|---|---|
| fy cadair | fy nghadair |
| dy gwaith | dy waith |
| ei côt (hi) | ei chôt (hi) |
| ei traethawd (ef/fo) | ei draethawd (ef/fo) |
| ein ddosbarth | ein dosbarth |
| Eich thŷ | eich tŷ |
| eu mherch | eu merch |

**1 yn gywir = 0 marc**
**2 / 3 yn gywir = 1 marc**
**4 / 5 yn gywir = 2 farc**
**6 yn gywir = 3 marc**

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn ymyl yr ateb cywir. [1]

| | |
|---|---|
| gofyn wrth | |
| gofyn i | ✓ |

(iii) Mae **un** gwall yn y frawddeg isod. Ysgrifennwch y frawddeg yn gywir gan gywiro'r gwall. [1]

Dyma'r gân roeddwn yn siarad amdani yn yr ysgol ddoe. / Roeddwn yn siarad am y gân hon yn yr ysgol ddoe. / Hon yw'r gân roeddwn yn siarad amdani ddoe.



© WJEC CBAC Cyf.

**B2.**

Yn y dasg hon byddwch chi'n cael eich asesu ar ansawdd eich **sgiliau ysgrifennu**. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

(a) Rydych chi'n ail-ymweld â rhywle sy'n arbennig iawn i chi. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r profiad a soniwch am eich teimladau.

**Neu,**

(b) Ysgrifennwch adroddiad i'ch papur bro lleol yn sôn am gynllun neu ddatblygiad sy'n fygythiad i'ch cymuned chi. Yn eich adroddiad dylech chi esbonio sut bydd hyn yn effeithio ar eich cymuned.

Gall y cynllun/datblygiad fod yn wir neu'n ddychmygol.

Bydd 20 marc am gyfathrebu a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35]

Dylech chi geisio ysgrifennu rhwng 350 a 500 o eiriau.

Os byddwch chi'n defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Gallwch chi gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch chi ddefnyddio tudalen ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn os bydd angen.



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.